

# COLEG GWENT

## AMODAU PRYNU CYFFREDINOL

### 1. Diffiniadau a Dehongliad

#### 1.1 Mae'r diffiniadau canlynol yn berthnasol i'r Contract hwn

Swyddog a Awdurdodwyd	unrhyw gyflogai i Goleg Gwent sydd wedi'i awdurdodi, naill ai'n gyffredinol neu'n benodol yn unol â rheoliadau ariannol Coleg Gwent i lofnodi Gorchmynion Prynu.
CG	Coleg Gwent o Gampws Pont-y-Pŵl, Heol Blaendâr, Pont-y-Pŵl, NP4 5YE
Contract	y Telerau hyn ynghyd â Gorchymyn Prynu cysylltiedig â'r contract presennol rhwng y Coleg a Chyflenwr, fel sy'n berthnasol fel y'i disgrifir ymhellach yng nghymal 2 isod
Rheoliadau Amgylcheddol	Gwybodaeth Rheoliadau Amgylcheddol 2004 ynghyd ag unrhyw ganllawiau a/neu godau ymarfer a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth
Deddf Rhyddid Gwybodaeth	Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Ddeddf o bryd i'w gilydd, ynghyd ag unrhyw ganllawiau a/neu godau neu ymarfer a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth
Nwyddau	y deunydd ac erthyglau (neu unrhyw ran ohonynt) fel y'u disgrifir yn y Contract
Diwygiad i Archeb	Diwygiad i archeb CG neu gyfres o ddiwygiadau i archebion, gyda phob diwygiad yn cael blaenoriaeth dros unrhyw ddiwygiad blaenorol i archeb.
Toriad parhaus	ailadrodd toriad ar dri achlysur yn ystod cyfnod y Contract neu unrhyw doriadau sy'n digwydd dair gwaith mewn cyfnod treigl o ddeuddeng mis.
Archeb Prynu	Archeb CG ar gyfer Cyflenwadau fel y'u nodir ar ffurflen archeb prynu CG.
Gwasanaethau	y gwasanaethau, neu unrhyw ran ohonynt, a ddarperir gan y Cyflenwr o dan y Contract
Cyflenwr	y person, y cwmni neu'r ffyrn y mae CG yn prynu Cyflenwadau oddi wrthynt
Cyflenwadau	y Nwyddau a/neu Wasanaethau a archebwyd gan CG o dan Archeb Prynu
Telerau	y telerau ac amodau hyn fel y'u diwygiwyd o bryd i'w gilydd yn unol â chymal 27.1
Tryloywder	mae'r cyflenwr yn cydnabod bod agenda tryloywder Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gofyn y cyhoeddi contractau, fel y Cytundeb Fframwaith hwn ac unrhyw Contract yn ôl gofyn, ac unrhyw ddogfen gaffael, fel y gwahoddiad i gaffael, ar wefan gyhoeddus ddynodedig y gellir ei chwilio.
TAW	y dreth ar werth y gellir ei chodi o bryd i'w gilydd

## 1.2 Mae'r rheolau dehongli canlynol yn berthnasol i'r Contract hwn:

- (a) mae person yn cynnwys person naturiol, corfforaethol neu anghorfforaethol (p'un a oes ganddo bersonoliaeth gyfreithiol ar wahân neu beidio)
- (b) mae cyfeiriad at barti'n cynnwys ei olynwyr a'i benodiadau a ganiateir.
- (c) mae cyfeiriad at statud neu ddarpariaeth statudol yn gyfeiriad ato fel y'i haddaswyd neu fel y'i hail-ddeddfwyd. Mae cyfeiriad at statud neu ddarpariaeth statudol yn cynnwys yr holl is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y statud hwnnw neu'r ddarpariaeth statudol honno.
- (d) dehonglir unrhyw eiriau sy'n dilyn y termau yn cynnwys, cynhwysa, yn benodol, er enghraifft neu unrhyw ymadrodd tebyg fel rhai enghreifftiol ac ni fyddant yn cyfyngu ar ystyr y geiriau, y disgrifiad, yr ymadrodd neu'r term sy'n dod o flaen y termau hynny.
- (e) Mae cyfeiriad at ysgrifennu neu ysgrifenedig yn cynnwys ffacs ac e-bost.

## 2. Y Contract

- 2.1 Mae'r Telerau hyn yn berthnasol i bob Archeb Prynu a osodir gan CG gydag unrhyw Gyflenwr. Mae'r Contract yn ffurfio cynnig gan CG i brynu Cyflenwadau oddi wrth y Cyflenwr yn unol â'r Telerau hyn a thelerau unrhyw Archeb Prynu neu gontract cysylltiedig. Bernir bod y Contract wedi'i dderbyn ar y cynharaf o'r canlynol pan fydd y Cyflenwr yn cyhoeddi yn ysgrifenedig y derbynnir y Contract neu unrhyw weithred gan y Cyflenwr sy'n gyson â chyflawni'r archeb. Mae Telerau hyn yn berthnasol i'r Contract gan eithrio unrhyw delerau eraill y mae'r Cyflenwr yn ceisio eu hymgorffori, neu sydd yn awgrymedig drwy fasnach, traddodiad, ymarfer neu yn ystod masnachu. Pan osodir Archeb Prynu yn erbyn contract sy'n bodoli rhwng CG a'r Cyflenwr yna os bydd anghysondeb rhwng y Telerau hynny a'r contract sy'n bodoli, bydd telerau ac amodau'r contract hwnnw yn drech na'r Telerau hyn.
- 2.2 Pan fo'n berthnasol, mae'n rhaid dyfynnu rhif a dyddiad yr Archeb Prynu ar bob nodyn cyngor, anfoneb a gohebiaeth yn ymwneud â'r Contract hwn. Gall methu â gwneud hynny oedi taliad.
- 2.3 Bydd pob un o'r Telerau hyn yn berthnasol i gyflenwi Nwyddau a Gwasanaethau a ddisgwylir pan ragnodir eu bos yn berthnasol ar gyfer y naill neu'r llall.

## 3. Pris

- 3.1 Bydd y Cyflenwr yn rhoi ac yn dosbarthu l CG y Cyflenwadau ar y prisiau a osodir yn y Contract. Bydd y pris yn cynnwys holl gostau a threuliau'r Cyflenwr yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol a eir iddynt yn unol â chyflawni'r Contract gan gynnwys storio, pecynnau, yswiriant, dosbarthu, gosod a chomisiynu (fel sy'n berthnasol). Ni fydd unrhyw ffioedd ychwanegol yn berthnasol oni chytunir arnynt mewn ysgrifennu ac wedi'u llofnodi gan CG.
- 3.2 Mae'r holl symiau sy'n daladwy gan CG o dan y Contract heb gynnwys TAW. Pan wneir unrhyw gyflenwad trehadwy at bwrpasau TAW o dan y Contract, bydd CG, pan dderbynnir anfoneb TAW oddi wrth y Cyflenwr, yn talu'r cyfryw symiau ychwanegol mewn perthynas â TAW fel y'i codir ar Gyflenwadau ar yr un pryd ag y mae taliad yn ddyladwy ar gyfer y Cyflenwadau.

#### **4. Amrywiadau**

- 4.1 Mae gan CG yr hawl, cyn dosbarthu, i anfon Diwygiad i Archeb at y Cyflenwr gan ychwanegu at, gan ddileu neu gan addasu'r Nwyddau neu'r Gwasanaethau. Os bydd y Diwygiad i Archeb yn achosi newid i'r pris neu i'r dyddiad dosbarthu yna mae'n rhaid i'r Cyflenwr atal perfformio'r Contract a hysbysu CG yn ddi-oed, gan gyfrifo pris a dyddiad dosbarthu ar yr un lefel cost a phroffidioldeb â'r pris gwreiddiol. Mae'n rhaid i'r Cyflenwr ganiatáu o leiaf 10 diwrnod gwaith i CG ystyried unrhyw bris a dyddiad dosbarthu newydd. Bydd y Diwygiad i Archeb yn dod i rym dim ond os bydd Swyddog a Awdurdodwyd yn derbyn mewn ysgrifen y pris a dyddiad dosbarthu newydd o fewn yr amser y mae'r Cyflenwr yn ei nodi. Os bydd y Swyddog a Awdurdodwyd yn methu cadarnhau'r Diwygiad i'r Archeb o fewn yr amser y mae'r Cyflenwr yn ei nodi yna bydd y Contractwr yn ailgychwyn yn syth fel petai'r diwygiad i'r Archeb dan sylw heb ei gyhoeddi

#### **5. Gofynion cyfreithiol a chytundebol**

5.1 Rhaid i'r Cyflenwr sicrhau y bydd y Nwyddau yn:

- (a) cydymffurfio ym mhob agwedd gyda darpariaethau'r Contract ac yn gyson â'u disgrifiad neu ag unrhyw samplau, patrymau, darluniadau, cynlluniau ac unrhyw fanyleb berthnasol.
- (b) bod o ansawdd boddhaol (o fewn ystyr Deddf Gwerthu Nwyddau 1979) ac yn addas ar gyfer unrhyw bwrpas a gynigwyd gan y Cyflenwr neu a wnaed yn hysbys i'r Cyflenwr gan CG, yn benodol neu'n olygedig, ac yn hynny o beth mae CG yn dibynnu ar fedr a barn y Cyflenwr;
- (c) pan fônt yn gynhyrchion a weithgynhyrchwyd, yn bod yn rhydd o wallau mewn dylunio, deunyddiau a chreffftwaith ac yn aros felly am 12 mis ar ôl eu dosbarthu;
- (d) cydymffurfio gyda phob gofyniad statudol a rheoleiddio gan gynnwys yn ymwneud â gweithgynhyrchu, labelu, pecynnu, storio, trin a thafod a dosbarthu'r Nwyddau;  
a
- (e) bod yn newydd (oni nodir yn wahanol yn y Contract).

5.2 wrth ddarparu'r gwasanaethau, bydd y cyflenwr yn:

- (a) cyflenwi'r Gwasanaethau i CG yn unol â thelerau'r Contract ac yn cwrdd ag unrhyw ddyddiadau perfformio ar gyfer y Gwasanaethau a nodir yn y Contract;
- (b) cydweithredu gyda CG ym mhob mater yn ymwneud â'r Gwasanaethau a chydymffurfio gyda phob cyfarwyddyd a geir gan CG;
- (c) perfformio'r Gwasanaethau gyda'r gofal, sgiliau a diwydrwydd gorau yn unol ag arferion gorau ym mhroffesiwn, diwydiant neu fasnach y Cyflenwr;
- (d) defnyddio staff sydd â'r sgiliau a phrofiad priodol i gyflawni'r tasgau a roddir iddynt, ac mewn digon o niferoedd i sicrhau y cyflenwir rhwymedigaethau'r Cyflenwr yn unol â'r Contract;
- (e) sicrhau y bydd y Gwasanaethau'n cydymffurfio â'r holl ddisgrifiadau a manylebau a osodir allan yn y Contract ac unrhyw fanyleb ac y byddant yn addas i unrhyw

bwrpas y mae CG yn rhoi gwybod amdano naill ai'n benodol neu'n awgrymol i'r Cyflenwr;

- (f) darparu'r holl offer, twls a cherbydau ac unrhyw eitemau eraill sydd eu hangen i ddarparu Gwasanaethau;
- (g) defnyddio'r nwyddau, y deunyddiau, y safonau a'r technegau o'r ansawdd gorau, a sicrhau y bydd yr holl nwyddau a deunyddiau a gyflenwir ac a ddefnyddir yn y Gwasanaethau neu a drosglwyddir i CG yn rhydd rhag diffygion mewn crefftwaith, gosod a dylunio;
- (h) cadw pob rheol a rheoliad iechyd a diogelwch perthnasol; a
- (i) cydymffurfio gyda'r holl gyfreithiau, rheoliadau, polisïau rheoleiddiol, canllawiau neu godau diwydiant perthnasol a all fod yn berthnasol i'r Gwasanaethau.

5.3 Bydd y cyflenwr yn sicrhau ar bob adeg bod ganddo, a'i fod yn eu cynnal, bob trwydded, caniatâd, awdurdodiad, a hawlen sydd ei hangen i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract.

5.4 Mae amser yn hanfodol ar gyfer pob dosbarthiad o Nwyddau ac mewn perthynas ag unrhyw ddyddiadau perfformiad a nodwyd yn y Contract am y Gwasanaethau.

5.5 Bydd y Cyflenwr yn sicrhau onid oes ei angen yn benodol o dan y Contract, na fydd unrhyw gynnwys asbestos yn y Cyflenwadau.

## **6. Gwarant y Cyflenwr**

6.1 Cytunir yn benodol rhwng CG a'r Cyflenwr y bydd;

- (a) y Cyflenwr yn unioni'n ddi-oed ar ei gost ei hun unrhyw ddiffyg yn y Nwyddau a ganfyddir gan CG wrth eu defnyddio'n briodol yn ystod y 12 mis cyntaf o ddefnydd gwirioneddol neu 18 mis ar ôl i CG eu derbyn, pa gyfnod bynnag fydd yn gorffen gyntaf. Gall y cyfryw ddiffygion ddeillio o gynlluniau diffygiol y Cyflenwr, cyfarwyddiadau camarweiniol y Cyflenwr ynglŷn â'u defnyddio neu ddeunyddiau annigonol neu ddiffygiol neu grefftwaith gwael neu unrhyw doriad arall o rwymedigaethau'r Cyflenwr mewn unrhyw ffordd arall boed yn y Contract hwn neu yn ôl y gyfraith;
- (b) bydd nwyddau a atgyweiriwyd neu Nwyddau a ddarparwyd yn eu lle rhai eraill yn dod dan y warant uchod ond am gyfnod o 12 mis ar ôl i CG eu derbyn; a
- (c) bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod darnau sbâr addas ar gael i hwyluso atgyweirio (lle bo'n berthnasol) am gyfnod o leiaf 10 mlynedd o ddyddiad dosbarthu'r Nwyddau.

## **7. Cyflenwi Nwyddau**

7.1 Caiff yr holl Nwyddau eu dosbarthu yn y lle ac ar yr adeg a nodwyd yn y Contract. Caiff yr holl nwyddau eu pacio'n ddigonol er mwyn osgoi difrod a thoriadau ac i'w galluogi i gyrraedd eu cyrchfan mewn cyflwr da. Caiff unrhyw nwyddau sydd wedi'u torri, eu difrodi neu nad ydynt mewn cyflwr da, naill ai yn gyfan gwbl neu'n rhannol, cyn iddynt gael eu derbyn, eu hamnewid heb unrhyw gost i Goleg Gwent o fewn saith diwrnod calendr i Goleg Gwent roi gwybod i'r Cyflenwr am y fath Nwyddau sydd wedi'u torri, eu difrodi neu sydd mewn cyflwr gwael. Mae'r cyflenwr yn cydnabod y caiff yr holl ddosbarthiadau eu derbyn gan Goleg Gwent ar yr amod nad ydynt yn cael eu hymchwilio at ddibenion toriadau, difrod, cyflwr a phrinder a, pan y'u harchwilir yn ddiweddarach os canfyddir bod y nwyddau wedi cael eu torri, eu difrodi, mewn cyflwr gwael neu'n brin, byddant, o fewn saith diwrnod calendr o hysbysiad i'r cyflenwr, yn cael eu hamnewid gan y cyflenwr heb unrhyw gost i Goleg Gwent.

- 7.2 Mae'n rhaid postio nodyn cyngor i'r cyfeiriad dosbarthu ar y diwrnod y caiff y nwyddau eu dosbarthu neu bydd yn mynd gyda'r dosbarthiad gan nodi rhif yr Archeb Prynu, lle y bo'n gymwys, y dyddiad dosbarthu, y sefydliad sy'n derbyn y dosbarthiad a rhestr o'r nwyddau a gaiff eu dosbarthu. Bydd teitl a risg yn y nwyddau yn pasio ar y dyddiad (os oes un) a nodir yn y Contract ac os na chaiff unrhyw un ei nodi ar y cynharaf o gwblhau'n dadlwytho'r Nwyddau yn y cyfeiriad dosbarthu yn unol â'r Contract neu daliad llawn am y Nwyddau. Os bydd Coleg Gwent yn gwneud unrhyw daliad ymlaen llaw neu mewn camau, ar yr adeg y gwneir y taliad llawn, mae'n rhaid i'r Cyflenwr farcio bod y Nwyddau yn eiddo i Goleg Gwent.
- 7.3 Ni fydd y cyflenwr yn dosbarthu'r Nwyddau mewn rhandaliadau heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw Coleg Gwent. Lle y cytunir bod y Nwyddau yn cael eu dosbarthu mewn yn rhannol, ni cheir anfonebu amdanynt hyd nes y bydd y rhan derfynol wedi cael ei chyflawni, ac eithrio gyda chaniatâd ysgrifenedig penodol CG ymlaen llaw.

## 8. Ansawdd a disgrifiad

(a) Bydd y Nwyddau yn:

- (i) cydymffurfio ym mhob ffordd â darpariaethau'r Contract;
- (ii) yn gallu cyflawni pob safon perfformiad a nodwyd yn y Contract;
- (iii) yn addas ar gyfer unrhyw bwrpas a wneir yn hysbys i'r Cyflenwr yn benodol neu'n awgrymol yn hyn o beth mae Coleg Gwent yn dibynnu ar sgil a barn y Cyflenwr;
- (iv) yn newydd (oni bai y nodwyd fel arall ar yr Archeb Prynu) ac wedi eu gwneud o ddeunyddiau da ac o wneuthuriad medrus a gofalus
- (v) yn cyfateb i'w disgrifiad neu i unrhyw samplau, patrymau, darluniau, cynlluniau a manylebau y cyfeiriwyd atynt yn y Contract
- (vi) o ansawdd boddhaol
- (vii) yn cydymffurfio ag unrhyw ddeddfwriaeth gyfredol

(b) Oni bai y gofynnir yn benodol am hynny yn y Contract, ni fydd y Nwyddau'n cynnwys unrhyw asbestos.

(c) Bydd gan Reolwr Caffael Coleg Gwent neu Swyddog a Awdurdodwyd hawl i wrthod unrhyw Gyflenwadau nad ydynt yn cydymffurfio â'r Contract. Wrth gael hysbysiad o wrthod, bydd y Cyflenwr, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, yn dileu unrhyw nwyddau neu'n adfer unrhyw waith neu wasanaethau a wrthodwyd fel hyn ar ei draul ei hun. Os bydd y Cyflenwr yn methu dileu neu adfer, fel sy'n gymwys, y fath Gyflenwadau a wrthodir o fewn cyfnod rhesymol, bydd Coleg Gwent â'r hawl i ddileu neu adfer y Cyflenwadau a wrthodwyd. Bydd y Cyflenwr yn indemnio Coleg Gwent yn erbyn costau a threuliau'r fath ddileu neu adfer. Gellir rhoi hysbysiad gwrthod drwy unrhyw ddull i'r cyflenwr, i'w was neu asiant a bydd Coleg Gwent yn rhoi hysbysiad o'r fath cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y dosbarthiad. Pan ofynnir amdano, bydd y Cyflenwr yn amnewid unrhyw Gyflenwadau a wrthodwyd gyda Chyflenwadau sy'n cydymffurfio â'r Contract.

## 9. Cynnydd ac Archwiliad

9.1 Bydd y Cyflenwr ar draul y Cyflenwr yn darparu unrhyw raglenni gweithgynhyrchu a dosbarthu y bydd yn rhesymol ofynnol gan Goleg Gwent. Bydd y Cyflenwr yn rhoi gwybod

i CG mewn ysgrifen yn ddi-oed os bydd cynnydd y Cyflenwr yn llithro yn ôl neu'n debygol o lithro yn ôl gydag unrhyw rai o'r rhaglenni hyn.

- 9.2 Bydd gan CG yr hawl i wirio cynnydd yng ngwaith y Cyflenwr ar bob amser rhesymol ac i brofi Nwyddau unrhyw bryd cyn eu dosbarthu. Os, yn dilyn y fath ymchwilio neu brofi, y bydd Coleg Gwent yn ystyried nad yw'r Nwyddau'n cydymffurfio neu'n annhebygol o gydymffurfio â'r Contract, bydd Coleg Gwent yn rhoi gwybod i'r Cyflenwr a bydd y Cyflenwr yn cymryd y fath gamau adferol ar unwaith ag sydd eu hangen er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

## **10. Deunydd Pecynnu**

- 10.1 Oni nodir yn y Contract, ni ddychwelir unrhyw ddeunydd pecynnu. Os nodir yn y Contract bod y deunydd pecynnu i'w ddychwelyd, mae'n rhaid i'r Cyflenwr roi cyfarwyddiadau llawn i CG cyn yr adeg dosbarthu. Mae'n rhaid nodi'n glir ar y Deunydd Pecynnu i bwy y mae'n eiddo. Mae'n rhaid i'r Cyflenwr dalu holl gostau cludo a thrin a thrafod ar gyfer dychwelyd y deunydd pecynnu. Ni fydd CG yn atebol am unrhyw ddeunydd pecynnu a gaiff ei golli neu ei ddifrodi ar y ffordd.

## **11. Diogelwch:**

- 11.1 Mae'n rhaid i'r Cyflenwr gadw at holl ofnion cyfreithiol y Deyrnas Unedig, yr Undeb Ewropeaidd a chytundebau rhyngwladol perthnasol yn ymwneud ag iechyd, diogelwch a'r amgylchedd, ac yn arbennig â marcio Nwyddau peryglus, darparu taflenni data ar gyfer deunyddiau peryglus a phob darpariaeth yn ymwneud â bwyd

## **12. Dosbarthu a Chasglu**

- 12.1 Os bydd y Cyflenwr neu gludwr y Cyflenwr yn dosbarthu unrhyw Nwyddau ar yr adeg anghywir neu i'r man anghywir yna gall CG dynnu o'r Pris unrhyw gostau storio neu gludiant sy'n deillio o hynny.

## **13. Dosbarthu'n Hwyr**

- 31.1 Os na chaiff y Nwyddau neu unrhyw ran ohonynt eu dosbarthu erbyn yr adeg neu'r adegau a nodiir yn y Contract yna gall CG trwy rybudd ysgrifenedig ganslo gweddill y Nwyddau nas dosbarthwyd. Gallwn hefyd ddychwelyd am gredyd llawn ac ar gost y Cyflenwr unrhyw Nwyddau na ellir ym marn CG eu defnyddio oherwydd y canslo hwn.

## **14. Derbyn**

- 14.1 Bydd gan CG yr hawl i wrthod y Nwyddau yn gyfan gwbl neu'n rhannol p'run a dalwyd amdanynt yn llawn neu'n rhannol o fewn cyfnod rhesymol ar ôl eu dosbarthu os nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion y Contract hwn. Cytunir y gall CG ddefnyddio'r hawl i wrthod er gwaethaf unrhyw ddarpariaeth a geir yn adran 11 neu adran 15A neu adran 30 (isadrannau 2A a 2B) neu Adran 35 Deddf Gwerthu Nwyddau 1979. Bydd CG yn rhoi cyfle rhesymol i'r Cyflenwr roi Nwyddau newydd sy'n cydymffurfio â'r Contract hwn yn eu lle, ar ôl hynny bydd gan CG hawl i ganslo'r Archeb Prynu a phrynu'r Nwyddau agosaf sy'n cyfateb iddynt o rywle arall. Os canslir dan yr amod hwn bydd y Cyflenwr yn ad-dalu'n ddi-oed unrhyw arian a dalwyd o dan y Contract heb ddal gafael ar unrhyw gyfran. Ni fydd canslo'r Archeb Prynu o dan yr amod hwn yn effeithio ar unrhyw hawliau eraill all fod gan CG. Mae'n rhaid i'r Cyflenwr gasglu'r holl Nwyddau a wrthodwyd o fewn amser rhesymol iddynt gael eu gwrthod neu bydd CG yn eu dychwelyd i'r Cyflenwr ar risg a chost y Cyflenwr.

## **15. Talu**

- 15.1 Oni nodir yn wahanol yn y Contract fel arfer bydd CG yn talu'r Cyflenwr o fewn 30 diwrnod i ddyddiad anfoneb a baratowyd yn gywir yn dwyn rhif yr Archeb Prynu (pan fo'n berthnasol) ac yn dyfynnu unrhyw ddisgownt ar gael. Gwneir taliad ar ôl i un o swyddogion CG ardystio bod y Nwyddau neu'r Gwasanaethau wedi'u darparu yn unol â'r Contract. Mae'n rhaid i anfoneb y Cyflenwr fod wedi'i gyfeirio

at y Cyfarwyddwr Cyllid yn CG. Ni fydd CG yn gyfrifol am oedi cyn talu a achosir gan fethiant y Cyflenwr i gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau anfonebu hyn.

15.2 Rhaid dangos Treth Ar Werth, pan fo'n berthnasol, ar wahân ar bob anfoneb fel tâl ychwanegol net-yn-unig. Rhaid i bob anfoneb sy'n cynnwys Treth Ar Werth gydymffurfio â gofynion Tollau Tramor a Chartref EM.

15.3 Rhaid anfon pob anfoneb a datganiad cyfrif uniongyrchol i [purchaseledger@coleggwent.ac.uk](mailto:purchaseledger@coleggwent.ac.uk). Rhaid anfon datganiadau erbyn y pumed o'r mis yn dilyn y dosbarthiad fan pellaf. Fel arall, gellir eu postio i; Adran Cyllid Coleg Gwent, Campws Pont-y-pŵl, Ffordd Blaendâr, Pont-y-pŵl, NP4 5YE.

## **16. Pŵer i Brynu pan fydd Diffygion**

16.1 Os bydd Cyflenwr yn methu dosbarthu Cyflenwadau yn unol â'r Contract neu os gwrthodwyd y Cyflenwadau ac ni roddwyd Cyflenwadau sy'n cydymffurfio â'r Contract yn eu lle, caiff CG, ar ei ddisgresiwn absoliwt ei hun, brynu'r Cyflenwadau a wrthodwyd neu na ddosbarthwyd a bydd gan CG yr hawl i adennill o'r Cyflenwr unrhyw gostau ychwanegol neu dreuliau a gafodd CG yn uwch na'r pris Contract.

## **17. Gosod yn Erbyn**

17.1 Gall CG ar unrhyw adeg, heb rybudd i'r Cyflenwr, osod unrhyw atebolrwydd y Cyflenwr i CG yn erbyn unrhyw atebolrwydd CG i'r Cyflenwr p'un ai a yw'r naill atebolrwydd neu'r llall yn un presennol, a diddymwyd neu heb ei ddiddymu, a p'un a yw y naill atebolrwydd neu'r llall yn digwydd o dan y Contract.

## **18. Trosglwyddo'r contract**

18.1 Ni fydd y Cyflenwr yn aseinio, amnewid goblygiadau, is-gontractio, trosglwyddo neu waredu fel arall neu ymdrin â'r contract (yn gyfan neu'n rhannol) ac unrhyw un o'i hawliau a'i rwymedigaethau o dan y Contract heb gydsyniad ysgrifenedig Coleg Gwent ymlaen llaw.

## **19. Is-gontractio**

19.1 Bydd y Cyflenwr yn parhau'n hollol gyfrifol am unrhyw a phob gweithrediad, hepgoriad, methu gweithredu ei isgontractwyr fel eu bod yn weithrediadau, hepgoriadau neu fethiannau gweithredu'r Cyflenwr.

## **20. Indemniad**

20.1 Rhaid i'r Cyflenwr indemnio CG yn erbyn yr holl rwymedigaethau, costau, treuliau, iawndal a cholledion (yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i unrhyw golledion uniongyrchol, anuniongyrchol neu ganlyniadol), colled elw, colled enw da a'r holl log, cosbau a chostau cyfreithiol ar sail indemniad a'r holl gostau a threuliau proffesiynol rhesymol eraill a brofir neu a ysgwyddir gan CG sy'n codi o'r canlynol neu mewn cysylltiad â'r canlynol:

- (a) unrhyw hawliad a wneir yn erbyn CG gan drydydd parti sy'n codi o ddiffygion yn y Cyflenwadau neu fethiant y Cyflenwr i roi'r Cytundeb ar waith yn unol â'r telerau, neu sy'n gysylltiedig â hynny;
- (b) unrhyw hawliad a wneir yn erbyn CG am farwolaeth, anaf personol neu ddifrod i eiddo sy'n codi o ddiffygion yn y Cyflenwadau, neu sy'n gysylltiedig â hynny;
- (c) unrhyw hawliad a wneir yn erbyn CG am achos gwirioneddol neu honedig o weithredu'n groes i hawliau eiddo deallus trydydd parti sy'n codi o gynhyrchu, cyflenwi neu ddefnyddio y Cyflenwadau, neu sy'n gysylltiedig â hynny, ac

- (d) unrhyw hawliad a wneir yn erbyn CG gan drydydd parti mewn cysylltiad ag unrhyw achos o dorri amodau'r GDPR neu dorri amodau'r Cytundeb Prosesu Data (lle bo hynny'n berthnasol) boed oherwydd methiant neu oediad wrth berfformio, neu berfformiad esgeulus neu ddiffyg perfformiad mewn perthynas ag unrhyw un o rwymedigaethau'r Cyflenwr o dan y GDPR neu'r Cytundeb Prosesu Data (lle bo'n briodol dylai bod gan y cyflenwyr yr yswiriant perthnasol i'w ddiogelu rhag hawliad o'r fath).

## **21. Perchnogaeth y Canlyniadau**

21.1 Os yw'r Contract yn ymwneud â gwaith dylunio ac/neu ddatblygu:

- (a) bydd holl hawliau yn y canlyniadau sy'n deillio o neu sy'n tarddu o'r Contract hwn, yn eiddo i CG a bydd gan CG yr unig hawl i benderfynu a oes rhaid ceisio unrhyw amddiffyniad, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i freinlythyrau, dyluniadau cofrestredig, nodau masnach neu unrhyw ddulliau perthnasol eraill o amddiffyn eiddo deallusol a grëwyd.
- (b) Bydd Cyflenwr yn rhoi gwybod i Goleg Gwent yn ddi-oed am yr holl gyfryw ganlyniadau a bydd, os gofynnir ac ar draul Coleg Gwent yn gwneud pob gweithred a phopeth sy'n angenrheidiol i alluogi Coleg Gwent neu enwebai Coleg Gwent i gael llythyrau patent, dyluniadau cofrestredig ac amddiffyniad arall ar gyfer canlyniadau ym mhob tiriogaeth ac i aseinio'r cyfryw i Goleg Gwent neu i enwebai Coleg Gwent.
- (c) Bydd y Cyflenwyr yn sicrhau bod pob gwybodaeth dechnegol (gan gynnwys rhaglenni cyfrifiadurol a gwybodaeth rhaglennu) sy'n deillio o'r Contract hwn yn cael ei chadw'n gwbl gyfrinachol ac eithrio unrhyw wybodaeth sy'n dod yn eiddo cyhoeddus heblaw trwy dorri'r Contract hwn.

## **22. Terfynu**

22.1 Os bydd y Cyflenwr yn cyflawni toriad sylweddol neu barhaus o'r contract bydd gan Goleg Gwent, heb gyfyngu neu effeithio ar hawliau neu adferiadau sydd ar gael iddo, un neu fwy o'r hawliau canlynol:

- (a) terfynu'r contract yn ddi-oed trwy roi gwybod yn ysgrifenedig i'r Cyflenwr;
- (b) gwrthod derbyn unrhyw berfformiad dilynol o'r Gwasanaethau a/neu ddsbarthu nwyddau y bydd y Cyflenwr yn ceisio ei wneud;
- (c) mynnu ad-daliad oddi wrth Gyflenwr o symiau a dalwyd o flaen llaw am Wasanaethau nad yw'r Cyflenwr wedi'u darparu ac/neu Nwyddau nad yw wedi'u dosbarthu; a
- (d) hawlio iawndal am unrhyw gostau ychwanegol, colled neu dreuliau a gafwyd gan CG y gellir eu priodoli mewn unrhyw ffordd i fethiant y Cyflenwr i fodloni dyddiadau o'r fath.

22.2 Gall CG ar ei opsiwn derfynu'r Contract naill ai'n gyfan gwbl neu ran ohono os:

- (a) bydd sefyllfa ariannol y Cyflenwr yn dirywio i'r fath raddau bod perygl i allu'r Cyflenwr ym marn resymol CG bod i gyflawni'n ddigonol ei rwymedigaethau o dan y Contract;



- (b) bydd y Cyflenwr, ei gyflogeion, asiantau neu unrhyw is-gontractwr yn cyflawni trosedd o dan Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010 gyda gwybodaeth ac awdurdod neu heb yn ymwybod neu heb awdurdod y Cyflenwr mewn perthynas â'r Contract hwn eu unrhyw gontract arall gyda CG;
- (c) ceir newid o ran pwy sy'n rheoli'r Cyflenwr;
- (d) ceir digwyddiad force majeure a bara am 4 wythnos dilynol sy'n atal perfformiad y Contract.

22.3 Ni fydd terfynu'r Contract o dan yr amod hwn yn effeithio ar hawliau ac adferiadau sydd wedi'u crynhoi erbyn y terfynu, gan gynnwys yr hawl i hawlio iawndal mewn perthynas ag unrhyw doriad o Gontract a oedd yn bodoli ar y dyddiad terfynu neu cyn y dyddiad hwnnw.

## 23. Hawl Coleg Gwent i Ganslo

23.1 Yn ogystal â hawliau terfynu eraill CG o dan y Contract hwn, gall CG derfynu'r Contract ac unrhyw Orchymyn Diwygio iddo ar unrhyw adeg drwy anfon hysbysiad terfynu i'r Cyflenwr. Bydd y Cyflenwr yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau rhesymol gan CG ynglŷn â'r Nwyddau. Os bydd y Cyflenwr yn cyflwyno hawliad terfynu yna bydd CG yn talu i'r Cyflenwr gost unrhyw ymrwymadau, rhwymedigaethau neu wariant a oedd ym marn resymol CG yn ganlyniad i'r Contract hwn ar adeg ei derfynu. Nid aiff cyfanswm yr holl daliadau a wneir neu sy'n ddyledus i'r Cyflenwr o dan yr amod hwn yn fwy na phris y Contract. Os na fydd y Cyflenwr yn cyflwyno hawliad terfynu o fewn tri mis i ddyddiad hysbysu terfynu Coleg Gwent yna ni fydd gan Goleg Gwent unrhyw rwymedigaeth arall o dan y Contract. **Force Majeure**

23.2 Ni fydd y naill barti na'r llall yn torri'r Contract nac yn atebol am oedi wrth berfformio, neu beidio â chyflawni, unrhyw un o'i rwymedigaethau oddi tano os bydd oedi neu fethiant o'r fath yn ganlyniad i ddigwyddiadau, amgylchiadau neu achosion y tu hwnt i'w reolaeth resymol.

## 24. Rhoddion Llwgr

24.1 Ni fydd y Cyflenwr yn rhoi, yn darparu, neu'n cynnig i staff ac asiantau CG unrhyw fenthyciad, ffi, gwobr, anheg neu unrhyw rodd neu fantais o gwbl. Os torrir yr Amod hwn gall CG, yn ddiragfarn i unrhyw hawliau eraill sydd gan CG, derfynu'n syth y Contract hwn ac adfer oddi wrth y Cyflenwr unrhyw golled neu niwed yn deillio o derfynu o'r fath.

24.2 Mae'n rhaid i'r Cyflenwr:

- (a) Cydymffurfio â phob cyfraith, statud, rheoliad a chod perthnasol sy'n ymwneud â gwrthlwgrwobrwyo a gwrthlygredd gan gynnwys ond ddim yn gyfyngedig i Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010;
- (b) Peidio â gwneud unrhyw weithgaredd, ymarfer neu ymddygiad a all fod yn drosedd o dan adrannau 1, 2 neu 6 Deddf Llwgrwobrwyo 2010 fel pe byddai'r gweithgaredd, yr ymarfer a'r ymddygiad wedi'i wneud yn y Deyrnas Unedig;
- (c) Meddu ar a chadw mewn lle ar hyd term y Contract hwn ei bolisiâu a gweithdrefnau ei hun, gan gynnwys gweithdrefnau digonol o dan Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010;
- (d) Adrodd yn brydlon i CG am unrhyw gais neu fyniant am unrhyw fantais ariannol annheilwng neu unrhyw fantais arall o unrhyw fath a dderbynnir gan y Cyflenwr mewn cysylltiad â'r Contract hwn.

24.3 Bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod unrhyw berson sy'n gysylltiedig â'r Cyflenwr sy'n perfformio gwasanaethau mewn perthynas â'r Contract hwn dim ond yn gwneud hynny ar sail contract ysgrifenedig sy'n gosod ar ac yn sicrhau oddi wrth y fath berson dermau cyffelyb i'r rhai a osodwyd ar y Cyflenwr yn y cymal 26 hwn.

## **25. Hepgoriad**

25.1 Ni fydd methiant neu oedi gan barti i ymarfer unrhyw hawl neu adferiad a ddarperir o dan y Contract hwn yn ffurfio hepgoriad o'r hawl neu'r adferiad hwn neu o unrhyw hawl neu adferiad arall, ac ni fydd yn atal neu'n cyfyngu ar unrhyw ymarfer arall o'r hawl neu'r adferiad hwnnw. Ni fydd unrhyw arfer sengl neu rannol o unrhyw hawl neu adferiad, a ddarperir o dan y Contract hwn yn atal neu'n cyfyngu ar ymarfer yr hawl honno nac unrhyw hawl arall eto.

## **26. Hysbysiad**

26.1 Bydd pob hysbysiad a chyfathrebiad y mae gofyn ei anfon gan y Cyflenwr i Goleg Gwent ynglyn â'r Contract hwn yn ysgrifenedig a chaiff ei anfon drwy bost dosbarth cyntaf neu drwy e-bost. Os caiff ei anfon at y Cyflenwr, mae'n rhaid postio hysbysiadau i'w swyddfa gofrestredig neu eu hanfon ar yr ebost i Procurement.Department@coleggwent.ac.uk. Caiff hysbysiadau a anfonir i Goleg Gwent eu postio i'r Rheolwr Caffael, Campws Pont-y-pŵl, Heol Blaendâr Road, Pont-y-pŵl, NP4 5YE [neu eu ebostio at Procurement.Department @coleggwent.ac.uk. Pan fyddant wedi'u postio, ystyrir y bydd hysbysiadau wedi cyrraedd y parti y'u cyfeirir ato ar y diwrnod busnes nesaf yn dilyn y dyddiad postio

## **27. Diwygiad**

27.1 Ni fydd unrhyw ychwanegiad, newidiad neu amnewidiad i'r Telerau hyn yn rhwymo Coleg Gwent neu'n ffurfio rhan o'r contract oni chânt eu derbyn yn ysgrifenedig gan Swyddog a Awdurdodwyd.

## **28. Cyfrinachedd**

28.1 Mae gofyn i gyflenwyr ystyried pob cyfathrebiad rhyngddynt eu hunain a Choleg Gwent fel rhai cyfrinachol oni fydd Coleg Gwent yn dweud fel arall mewn ysgrifen. Ni fydd cyflenwyr yn datgelu unrhyw wybodaeth am brisio i unrhyw drydydd parti heblaw am unrhyw berson a gyflogir neu a benodir gan y naill barti neu'r llall mewn cysylltiad â'r Contract yn ystod unrhyw gyflogaeth neu benodiad o'r fath. Caiff unrhyw wybodaeth a dderbynnir ei defnyddio at ddibenion y Contract hwn yn unig.

## **29. Hyrwyddo Contractau**

29.1 Dim ond ar ôl cadarnhau yn ysgrifenedig y bydd CG yn sicrhau bod unrhyw gytundeb rhwng y Cyflenwr a CG yn cael ei wneud gan nodi bod hyn yn dderbyniol. Ni ddylai'r pris a gytunir rhwng y Cyflenwr a Choleg Gwent gael ei roi ar gael o dan unrhyw amgylchiadau i unrhyw drydydd parti oni bai bod Coleg Gwent yn cytuno i hynny mewn ysgrifen. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo cytundeb ar wefan y Cyflenwr neu ar unrhyw ddeunydd hyrwyddo arall.

## **30 Cydymffurfio â Rheoliadau Statudol**

30.1 Bydd y cyflenwr yn cydymffurfio â'r holl gyfreithiau, statudau a rheoliadau gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhai sy'n perthyn i safonau ymddygiad moesegol a chyfrifol,

hawliau dynol (gan gynnwys masnachu pobl a chaethwasiaeth a dod o hyd i fwynau gwrthdaro), amddiffyn yr amgylchedd, datblygu cynaliadwy, diogelu data, GDPR a llwgrwobrwyo a llygredd.

- 30.2 Bydd y Cyflenwr bob amser yn cydymffurfio â darpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Chynllun Iaith Gymraeg Coleg Gwent, y mae eu manylion ar gael gan Goleg Gwent ar gais.
- 30.3 Mae cyflenwyr sy'n darparu nwyddau neu wasanaethau i CG yn gwarantu y cynhaliwyd ymchwiliad manwl i'w harferion llafur ac i rai eu cyflenwyr uniongyrchol, er mwyn sicrhau na cheir unrhyw gaethwasiaeth neu lafur dan orfodaeth yn unman yn eu sefydliad neu trwy unrhyw gyflenwyr uniongyrchol neu is-gontractwr i'w sefydliad.
- 30.4 Bydd y Cyflenwr yn cadarnhau ei fod wedi rhoi ar waith yr holl brosesau, gweithdrefnau, ymchwiliadau a systemau cydymffurfio sydd eu hangen er mwyn sicrhau y bydd y sefyllfa hon yn parhau i fod yn ddilys bob amser a'i fod yn cydymffurfio'n llwyr â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015
- 30.5 Os bydd yn ofynnol i'r Cyflenwr, ei asiantau, ei staff neu ei isgontractwyr gyflenwi Nwyddau a/neu berfformio'r Gwasanaethau (neu unrhyw ran ohonynt) ar safle Coleg Gwent neu ynghyd â'i gyflogeion neu ei fyfyrwyr ar unrhyw safle arall, bydd y Cyflenwr yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y fath asiantau, staff neu isgontractwyr yn glynu at bolisi cyfle cyfartal Coleg Gwent.
- 30.6 Ni fydd y Cyflenwr yn gwahaniaethu, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, neu drwy wneud cam â rhywun neu ei aflonyddu, yn groes i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol. Bydd y Cyflenwr yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod yr asiantau, staff neu isgontractwyr a benodir ganddo yn glynu at y rhwymedigaeth hon mewn perthynas â'r Gwasanaeth.
- 30.7 Bydd y Cyflenwr yn gwarantu bod ei arferion a'i weithdrefnau ei hun yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 a bod ei gyflogeion wedi'u hyfforddi'n llawn ar faterion sy'n perthyn i atal gwahaniaethu anghyfreithlon, â'r cymwysterau a'r profiad addas a byddant yn cyflawni eu dyletswyddau mewn ffordd broffesiynol a moesegol, sy'n gyson ag ymrwymiad Coleg Gwent i gyfle cyfartal a safonau ymddygiad uchel.
- 30.8 Bydd y Cyflenwr yn darparu'r fath wybodaeth ag sy'n ofynnol gan Goleg Gwent ynglŷn â pholisïau ac arferion y Cyflenwr mewn perthynas ag atal gwahaniaethau anghyfreithlon a hyrwyddo cyfle cyfartal yn nhermau cyflogaeth a gwasanaethau cwsmeriaid.
- 30.9 Bydd y cyflenwr yn hysbysu'r CG yn brydlon ac yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bydd y cyflenwr yn dod yn ymwybodol o unrhyw achos a ddygir yn erbyn y cyflenwr o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mewn perthynas ag unrhyw gontract.
- 30.10 Os deuir i gasgliad o wahaniaethu anghyfreithlon yn groes i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn erbyn y Cyflenwr neu yn erbyn Coleg Gwent sy'n deillio o ymddygiad y Cyflenwr, bydd Coleg Gwent yn gofyn i'r Cyflenwr gymryd camau adferol ar unwaith er mwyn sicrhau nad yw'n digwydd eto.
- 30.11 Os bydd y Cyflenwr yn mynd i unrhyw is-gontract fel y'i hawdurdodir mewn cysylltiad â'r Contract, bydd y Cyflenwr yn gorfodi rhwymedigaethau cyffelyb ar ei is-gontractwyr mewn perthynas â chyfle cyfartal.

### **31. Diogelu Data**

31.1 Pan fydd perfformio'r Contract yn gofyn i'r Cyflenwr brosesu data personol Coleg Gwent, bydd y cyflenwr yn mynd i Gytundeb Prosesu Data ar delerau safonol Coleg Gwent ac yn cydymffurfio â gofynion y fath gytundeb

### **32. Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (TUPE)**

32.1 O dan ddeddfwriaeth TUPE berthnasol, bydd Cyflenwyr yn darparu unrhyw wybodaeth a ofynnir amdani ganddynt, mewn perthynas â meysydd su'n perthyn i unigolion o dan TUPE.

### **33. Rhyddid Gwybodaeth**

33.1 Mae'r Cyflenwr yn cydnabod bod Coleg Gwent yn ddarostyngedig i ofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r EIR. Bydd y Cyflenwr yn:

- (i) cynorthwyo ac yn cydweithio gyda Choleg Gwent er mwyn galluogi Coleg Gwent i gydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r EIR.
- (ii) trosglwyddo i Goleg Gwent unrhyw gais am wybodaeth neu gais ymddangosiadol a wneir o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r EIR cyn gynted ag sy'n ymarferol a beth bynnag o fewn 2 ddiwrnod gwaith o'u derbyn;
- (iii) darparu gwybodaeth i Goleg Gwent y gofynnwyd amdani neu y mae'n ymddangos y gofynnwyd amdani o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r EIR sydd yn ei feddiant o fewn 5 diwrnod gwaith o gais gan Goleg Gwent; a
- (iv) peidio ag ymateb yn uniongyrchol i gais neu gais ymddangosiadol am wybodaeth a wnaed o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu EIR oni bai y caiff ei awdurdodi i wneud felly gan Goleg Gwent.

33.2 Bydd y Cyflenwr yn cydnabod y gallai fod yn ofynnol i Goleg Gwent, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac EIR ddatgelu gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif, heb ymgynghori neu heb gael cydsyniad gan y Cyflenwr a bod Coleg Gwent yn hollol gyfrifol am bennu a yw unrhyw wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif, wedi'i heithrio rhag datgelu yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r EIR.

### **34. Cyfraith Lywodraethol ac Awdurdodaeth**

34.1 Caiff y Contract, ac unrhyw anghydfod neu hawliad (gan gynnwys anghydfodau neu hawliadau nad ydynt yn rhai cytundebol) sy'n deillio o'i ddeunydd pwnc neu ffurfiant neu mewn perthynas â nhw, ei lywodraethu a'i ddehongli yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr. Mae pob parti yn cytuno'n ddiwrthdro y bydd gan Lysoedd Cymru a Lloegr Awdurdodaeth gyfyngedig i setlo unrhyw anghydfod neu hawliad (gan gynnwys anghydfodau neu hawliadau nad ydynt yn rhai cytundebol) sy'n deillio o'r Contract neu ei ddeunydd pwnc neu ffurfiant neu mewn perthynas â nhw.

Os bydd angen y ddogfen hon arnoch yn Gymraeg, cysylltwch â [procurement@colegwent.ac.uk](mailto:procurement@colegwent.ac.uk)